Ms Lynne Neagle AM
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Email: lynne.neagle@assembly.wales

24 Ebrill 2018

Annwyl Lynne

Y llynedd, fe wnaethom gomisiynu adolygiad o'r ffordd y cafodd y Dystysgrif Her Sgiliau ei dylunio a'i hasesu a'i safle o fewn Bagloriaeth Cymru.

Heddiw, rydym yn cyhoeddi adroddiad yn manylu ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion ynghyd â throsolwg byr yn egluro sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r argymhellion hynny. Rydym yn amgáu copïau o'r ddwy ddogfen gyda'r llythyr hwn.

Pwrpas yr adolygiad oedd archwilio'r ffordd y cafodd y Dystysgrif Her Sgiliau newydd ei dylunio ynghyd â sut mae'n gweithio'n ymarferol. Daw i'r casgliad fod Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr er mwyn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau sy'n ddefnyddiol ar gyfer eu dyfodol. Mae'n gryf o blaid cadw'r cymhwyster, ac yn ein gwahodd i ystyried sut y gallwn adeiladu ar ei gryfderau a'i symleiddio.

Mae wyth argymhelliad. Mae rhai ohonynt yn canolbwyntio ar y ffordd y caiff y Tystysgrif Her Sgiliau ei chyflwyno ar hyn o bryd, tra bod eraill yn awgrymu sut y gellir symleiddio'r ffordd y caiff ei dylunio a'i hasesu yn y dyfodol.

Byddwn yn sefydlu gweithgor i'n helpu i ystyried sut y gellir rhoi'r argymhellion ar waith. Er mwyn profi a mireinio unrhyw gynigion a gyflwynir gan y gweithgor, byddwn yn defnyddio panel o randdeiliaid, gan gynnwys athrawon, darlithwyr, myfyrwyr, cyflogwyr a phrifysgolion.

Fel cymhwyster newydd ac arloesol o fewn Bagloriaeth Cymru sydd wedi'i hailgynllunio, roedd disgwyl i'r Dystysgrif Her Sgiliau barhau i ddatblygu dros amser. Mae canfyddiadau'r

ymchwil hon yn helpu i ddangos y ffordd ar gyfer proses ystyrlon o adolygu a mireinio er mwyn sicrhau bod y cymhwyster yn parhau i helpu myfyrwyr ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

Os hoffech chi drafod unrhyw agwedd ar y gwaith hwn a'u heffeithiau ar gyfer y dyfodol, byddem yn fwy na pharod i wneud hynny.

Yn gywir

**Ann Evans**
Cadeirydd

**Philip Blaker**
Prif Swyddog Gweithredol